Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd
Together we will end homelessness

# Y Lwfans Tai Lleol:
## Y dull mae angen i San Steffan ei ddefnyddio i helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

Gorffennaf 2026



# Rhagair

Nawr fy mod wedi setlo yn dilyn cyfnod o ddigartrefedd, rydw i'n gweithio gyda Crisis fel Arbenigwr drwy Brofiad ac wedi bod yn meddwl am yr hyn sy'n cyfrannu at ddigartrefedd, a sut gallwn ni roi diwedd arno.

Ni all atal digartrefedd aros tan argyfwng. Rhaid i'r gwaith ddechrau'n llawer cynt ac mae'n rhaid iddo olygu bod pobl yn gallu fforddio tai yn realistig. Mae budd-dal tai yn dilyn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol, nad ydynt ar hyn o bryd yn talu cost hyd yn oed yr eiddo rhentu preifat rhataf sydd ar gael.  Mae gwneud iawn am y diffyg – neu beidio – rhwng cost rhent preifat a thaliadau budd-dal tai, hyd yn oed ar gyfer llety bach iawn a llety a rennir, yn gallu cyfateb i gannoedd o bunnoedd bob mis.

Mae digartrefedd ac ansicrwydd o ran tai yn codi cwestiynau ynghylch sut mae ein cymunedau'n gofalu am ei gilydd. Un o'r pethau sy'n ein gwneud ni'n bobl yw'r ffaith ein bod yn poeni am ein gilydd.

Pan fydd pobl yn credu nad yw eu lles yn bwysig i bobl eraill, mae'n gallu eu gwanhau. Yn hytrach na chael eu llethu gan y teimladau hyn – nad yw eu hanghenion dynol sylfaenol yn bwysig – mae'n gallu arwain at ddibyniaeth, iechyd meddwl gwael, gorfywiogrwydd.

Pan fyddwch chi'n teimlo eich bod yn bwysig, gallwch droi'r teimladau hyn yn bethau eraill – yn greadigrwydd a chysylltiad.

Petai cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn cyd-fynd â chostau rhentu preifat, byddai rhan allweddol o'r darlun hwnnw o ddigartrefedd ac anfantais gymdeithasol yn cael sylw.

Yn hytrach, mae'r cyfraddau wedi cael eu rhewi, er bod cost rhentu preifat wedi cynyddu, gan wneud tenantiaethau preifat yn anfforddiadwy ac yn anghynaliadwy ar lefel ymarferol, ac mae'n amlwg beth mae'r holl ddiffyg pryder hwn yn ei wneud i gymunedau ar lefel emosiynol.

Gallwn roi diwedd ar ddigartrefedd, ond mae angen digon o dai fforddiadwy i wneud hynny. Mae buddsoddi mewn lleoedd a phobl yn lleihau tlodi, yn gwella ansawdd bywyd, yn gwella iechyd, yn lleihau dibyniaeth ar sylweddau, ac mae ein heconomi ar ei hennill. Mae'n gwella pethau i bob un ohonom, ym mhob cymuned.

- Rhiannon*, Arbenigwr drwy Brofiad, Cymru

# Crynodeb Gweithredol

Ar adeg pan fo pobl yn treulio cyfnodau hir yn gorfod byw mewn llety dros dro neu'n wynebu mathau eraill o ddigartrefedd, mae llawer o bobl yn chwilio'n daer am eiddo fforddiadwy ar y farchnad rhentu preifat.[1]

Ar gyfer aelwydydd sy'n dibynnu ar unrhyw fath o fudd-dal tai – drwy Gredyd Cynhwysol neu'r hen Fudd-dal Tai – mae'r cymorth ariannol y gallant ei gael tuag at eu rhent wedi'i gapio gan gyfradd y Lwfans Tai Lleol. Mae'r Lwfans Tai Lleol yn cael ei adolygu bob blwyddyn o fewn cyllideb flynyddol Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, ers 2012, mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol wedi cael eu torri a'u rhewi am gyfnodau hir gan un llywodraeth ar ôl y llall – yn fwyaf diweddar, maen nhw wedi'u rhewi ers y cynnydd yn 2024.

Mae Crisis yn gweithio mewn partneriaeth â'r wefan eiddo, Zoopla, i gael gwell dealltwriaeth o'r datgysylltiad sydd wedi tyfu rhwng y farchnad rhentu preifat a'r cymorth sydd ar gael drwy fudd-dal tai – fel y mae wedi'i gyfyngu gan y Lwfans Tai Lleol. Rydyn ni wedi adolygu data o dros 18,000 o dai rhent preifat oedd wedi'u rhestru yng Nghymru yn ystod blwyddyn ariannol 2025/2026 ac wedi canfod y canlynol:

1. **Dim ond 0.7% o'r tai rhent ar y farchnad ledled Cymru yn 2025/2026 oedd yn fforddiadwy i aelwydydd a oedd yn dibynnu ar fudd-dal tai.** I deuluoedd sydd angen dŷ 3 ystafell wely, dim ond 0.3% o'r eiddo wedi'i restru oedd o fewn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol.
2. **Mae argaeledd tai rhent preifat sy'n fforddiadwy i bobl sy'n cael budd-dal tai yn eithriadol o brin ar draws Prydain Fawr, ond mae'r prinder yn fwyaf amlwg yng Nghymru.** Mae'r data'n dangos yn glir bod cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn creu pwysau na ellir ei reoli, gyda phrinder difrifol o dai rhent fforddiadwy ym mhob rhan o Brydain. Yn Lloegr a'r Alban, dim ond 1.8% a 5.5% o'r eiddo wedi'i restru oedd o fewn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol, yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn hyd yn oed yn is yng Nghymru, sef 0.7%.
3. **Mae prinder tai fforddiadwy i bobl sy'n cael cymorth lles yn effeithio ar bob ardal yng Nghymru.** Yn hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru, nid oedd unrhyw dai fforddiadwy 1 ystafell wely wedi'u rhestru ar gyfer pobl a oedd yn dibynnu ar fudd-dal tai.
4. **Mae'r diffyg rhwng cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol a rhenti'r byd go iawn yn golygu bod rhai o'r aelwydydd tlotaf yn gorfod talu miloedd o bunnoedd bob blwyddyn mewn costau ychwanegol er mwyn osgoi ôl-ddyledion rhent.** Ar draws y traean rhataf o eiddo rhent wedi'i restru, mae ein data'n dangos y gallai

---

[1] Shelter Cymru, *Aros am Gartref*, gweler: [Aros am Gartref: Diweddariad ar restrau aros tai cymdeithasol yng Nghymru - Shelter Cymru](); Llywodraeth Cymru, StatsCymru, gweler: [Unigolion digartref a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o lety | StatsCymru]()

aelwydydd sy'n dibynnu ar fudd-dal tai dal orfod chwilio am £2,000-£4,000 ychwanegol ar ben eu budd-dal bob blwyddyn i dalu am wir gost rhent.

5. **Mae prinder tai fforddiadwy yn gallu rhoi pwysau ar bobl i fyw mewn cartrefi anaddas neu anghynaliadwy.** Mae gorfod aros am hir am dai cymdeithasol, cystadleuaeth ffyrnig am gyn lleied o dai fforddiadwy ar y farchnad rhentu preifat, a heriau digartrefedd yn golygu y gall pobl deimlo dan bwysau i symud i dai na fyddant yn fforddiadwy yn y tymor hir, neu sy'n peri risgiau i'w hiechyd a'u lles.

Yn ogystal â'n canfyddiadau ar argaeledd tai rhent fforddiadwy ar y farchnad, mae data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn ei gwneud yn glir bod y cyfraddau presennol, annigonol y Lwfans Tai Lleol hefyd yn effeithio ar rentwyr preifat presennol. Mae eu data'n dangos, ar gyfer dau draean yr aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru, nad yw'r budd-dal tai maen nhw'n ei gael yn ddigon i dalu cost lawn eu rhent.[2]

Mewn hinsawdd lle mae lefelau digartrefedd yn uchel yng Nghymru, mae gan y sector rhentu preifat y potensial i fod yn rhan o'r ateb i ddarparu rhywle sefydlog i bobl ei alw'n gartref. Yn anffodus, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, er bod cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn dal wedi colli cysylltiad â rhenti'r byd go iawn, bydd tai rhent preifat yng Nghymru yn dal allan o gyrraedd pobl ar yr incwm isaf a bydd gallu'r sector rhentu preifat i chwarae rhan ymarferol yn yr ateb i roi diwedd ar ddigartrefedd yn cael ei rwystro.

Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn – ac yn ein hadroddiad sy'n edrych ar yr effaith ar draws Prydain, *No Home To Go To: How Frozen Local Housing Allowance (LHA) Rates are Causing Homelessness* – yn dangos bod angen ar frys i San Steffan wrando ar y galwadau i adfer cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol, ac ymateb i'r galwadau hynny. Er mwyn i fudd-dal tai gyflawni ei bwrpas gwreiddiol o wneud rhentu preifat yn fforddiadwy i'r aelwydydd tlotaf ledled y Deyrnas Unedig, rhaid iddo dalu gwir gost rhentu. Bydd methu gwneud hynny'n ei gwneud yn llawer anoddach i ni adeiladu Deyrnas Unedig, a Chymru, lle mae gan bawb le sefydlog i'w alw'n gartref.

[2] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, *Local Housing Allowance Indicator*, StatXplore, gweler: Stat-Xplore - Home

# Cyflwyniad

Ledled Cymru, mae lefelau digartrefedd wedi bod yn eithriadol o uchel dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos bod cynghorau wedi cofnodi bod dros 13,000 o aelwydydd wedi ceisio cymorth ar gyfer digartrefedd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.[3]

Er bod nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at lefelau mor uchel o ddigartrefedd yng Nghymru, mae'n amlwg bod prinder tai fforddiadwy ar gyfer rhent preifat wedi bod yn rhan o'r darlun hwn ers tro byd. Er bod mesurau y gallai ein Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru eu hystyried ar fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat, un mater allweddol sy'n cyfrannu at brinder tai rhent fforddiadwy yw methiant parhaus Llywodraeth y DU i adfer y Lwfans Tai Lleol er mwyn iddo dalu gwir gost rhentu.

Fe wnaeth Monitor Digartrefedd diweddaraf Crisis a Heriot-Watt ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd yn 2025, fodelu cyfres o newidiadau polisi a'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar lefelau digartrefedd yng Nghymru.[4] Mae'n dangos mai adfer y Lwfans Tai Lleol yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol sydd ar gael. Ac eto, mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn dal wedi'u rhewi ac mae ffigurau newydd brawychus sy'n cael eu datgelu yn yr adroddiad hwn yn dangos bod budd-dal tai yn bellach byth i ffwrdd o renti'r byd go iawn.

Ers y tro diwethaf i Crisis gyhoeddi data ar y Lwfans Tai Lleol, mae nifer yr eiddo rhent preifat ar y farchnad yng Nghymru a fyddai'n fforddiadwy i bobl sy'n dibynnu ar fudd-dal tai bellach yn llai nag 1%. Mewn sawl rhan o Gymru, nid oes unrhyw eiddo rhent fforddiadwy o fewn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol wedi'u cofnodi yn ein set ddata. Mae gweithredu gan San Steffan yn hollbwysig erbyn hyn.

## Beth yw'r Lwfans Tai Lleol?

System yw'r Lwfans Tai Lleol sy'n gosod y cap ar gymorth lles y gallai aelwydydd ei gael tuag at gost rhentu preifat. Mae'n dibynnu ar ble rydych chi'n byw, nifer y bobl yn eich aelwyd, a'u hoedran. Mae'r Lwfans Tai Lleol yn pennu'r gyfradd uchaf y gall rhywun ei chael drwy unrhyw fath o fudd-dal tai – yr hen Fudd-dal Tai, sy'n cael ei ddiddymu'n raddol, ac elfen tai Credyd Cynhwysol.

Bob blwyddyn, mae Swyddogion Rhenti yng Nghymru yn casglu data i nodi eu hamcangyfrif o renti preifat cyfartalog ledled Cymru – mae gwahanol gyrff yn gwneud y gwaith hwn ar gyfer rhannau eraill o'r DU.

---

[3] Gwefan StatsCymru, gweler: Aelwydydd a ganfuwyd sy'n gymwys, yn ddigartref yn amodol ar ddyletswydd i helpu i sicrhau yn ystod y flwyddyn: Y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf yn ôl y math o aelwyd (Adran 73) | StatsCymru

[4] Crisis, *Y monitor digartrefedd: Cymru 2025*, gweler: Y monitor digartrefedd: Cymru 2025

Bwriedir i'r Lwfans Tai Lleol fod yn ddigon i dalu am y 30% isaf o renti preifat mewn ardal. Ond mewn gwirionedd, nid yw hyn yn wir o bell ffordd.

Ers 2012, mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol wedi cael eu torri a'u rhewi am gyfnodau hir gan un llywodraeth ar ôl y llall yn San Steffan. Yn wreiddiol, roedd y Lwfans Tai Lleol yn ddigon i dalu am y 50% isaf o renti, ond cafodd hyn ei ostwng i 30% yn 2011.

O 2012 ymlaen, daeth y broses o uwchraddio'r Lwfans Tai Lleol bob mis i'w gadw'n gyson â rhenti gwirioneddol i ben. Daeth y cysylltiad statudol rhwng rhenti gwirioneddol a'r Lwfans Tai Lleol i ben; cafodd y Lwfans Tai Lleol ei uwchraddio unwaith yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2013, ddwywaith ar gyfradd o 1% wedi'i chapio yn 2014-15, ac wedyn naill ai ei rewi neu ei uwchraddio am gyfnod byr i gyfateb i'r 30% isaf.

Ers i'r mesurau cyni hyn ddod i rym, dim ond tair gwaith mae'r Lwfans Tai Lleol wedi cael ei uwchraddio: yn 2016, 2020 (fel mesur argyfwng yn ystod y pandemig) a 2024.

## Y data yn yr adroddiad hwn

Mae Crisis yn gweithio mewn partneriaeth â'r wefan eiddo, Zoopla, i gael gwell dealltwriaeth o'r datgysylltiad rhwng y farchnad rhentu preifat a'r cymorth sydd ar gael drwy fudd-dal tai ar draws Prydain.

I gyflawni hyn, mae Zoopla wedi rhannu data ar bob tŷ rhent wedi'i restru drwy eu safle ym mlwyddyn ariannol 2025/2026. Mae dadansoddwyr Crisis wedyn wedi cymharu'r rhenti hyn a hysbysebwyd â'r gyfradd Lwfans Tai Lleol sy'n berthnasol i'r tŷ hwnnw – ar sail Ardal Marchnad Rentu Eang y tŷ a nifer yr ystafelloedd gwely sydd ganddo – i ddeall faint o dai oedd wedi'u rhestru i'w rhentu yn ystod y cyfnod hwnnw o 12 mis fyddai wedi bod yn fforddiadwy i aelwyd sy'n dibynnu ar fudd-dal tai.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ddadansoddi data tai wedi'u rhestru ar y farchnad rhentu preifat yng Nghymru. Rydyn ni wedi canolbwyntio'r gwaith hwn ar dai hunan-gynhwysol sy'n cynnwys 1, 2 neu 3 ystafell wely (yn hytrach na Thai Amlfeddiannaeth, llety gosod tymor byr ac eiddo mwy).

Ni fydd pob tŷ sydd ar gael i'w rentu'n breifat yn ymddangos ar wefannau rhestru eiddo Zoopla neu debyg, ond mae poblogrwydd Zoopla yn golygu bod y data a ddadansoddwyd gan Crisis yn cynrychioli 18,642 o restrau o dai i'w rhentu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae hyn yn rhoi maint sampl da i ni a darlun clir o'r heriau fforddiadwyedd i aelwydydd sy'n dibynnu ar unrhyw fath o fudd-dal tai.

## Ar bwy yng Nghymru y mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn effeithio?

Ar hyn o bryd, mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn San Steffan ynghylch y Lwfans Tai Lleol yn effeithio'n uniongyrchol ar ddegau o filoedd o aelwydydd yng Nghymru. Fel y nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cynnwys aelwydydd sy'n rhentu'n breifat ar hyn o bryd yn ogystal â phobl sy'n methu dianc rhag

digartrefedd. Yn rhy aml, mae pobl yn gorfod aros ar restrau aros hir am dŷ cymdeithasol ac yn methu fforddio rhentu'n breifat.

Mae bron i 85,000 o aelwydydd yng Nghymru yn rhentu'n breifat ac yn dibynnu ar ryw fath o fudd-dal tai i dalu cost eu rhent (elfen tai Credyd Cynhwysol neu'r hen Fudd-dal Tai).[5] Pan fydd y Lwfans Tai Lleol yn cael ei rewi, mae'r aelwydydd hyn yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol. Nid yw'r rhenti sy'n cael eu codi gan landlordiaid o reidrwydd yn cael eu rhewi yn ystod y cyfnodau hyn, felly mae aelwydydd yn aml yn cael eu gorfodi i wneud toriadau eraill er mwyn parhau i fforddio eu cartref. Yn ystod argyfwng costau byw parhaus lle mae pob un ohonom yn talu mwy bob mis am ein hanfodion – nwy, trydan, bwyd ac ati – mae perygl y bydd y pwysau hwn yn gwthio aelwydydd i dlodi neu ddigartrefedd.

Mae'r un pwysau ag y mae'r aelwydydd hyn yn ei wynebu wedyn yn dod yn rhwystr i sicrhau cartref i lawer o'r miloedd o bobl sy'n methu dianc rhag digartrefedd yng Nghymru. Ledled y wlad, mae dros 10,500 o bobl yn ddigartref ac yn byw mewn llety dros dro, amcangyfrif o 6,500 o bobl yn syrffio soffas, a 140 o bobl yn cysgu ar ein strydoedd.[6] Nid yw pawb sy'n ddigartref yn cael budd-daliadau nac â hawl i gael budd-daliadau ond, i'r rhai sy'n ddigartref, gall y diffyg cysylltiad rhwng yr hyn sydd ar gael o ran cymorth lles a rhenti'r farchnad ymestyn digartrefedd.

## Beth mae'r data'n ei ddweud

### 1. Roedd llai nag 1% o'r tai rhent ar y farchnad yn 2025/2026 yn fforddiadwy i aelwydydd sy'n cael budd-dal tai.

Ar draws yr holl eiddo rhent preifat a adolygwyd, dim ond 0.7% o gartrefi oedd yn hafal i neu'n is na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol berthnasol. Mae hyn yn golygu y byddai llai na 150 o gartrefi yng Nghymru yn fforddiadwy i unigolyn neu deulu sy'n cael budd-dal tai, o blith dros 18,000 o eiddo wedi'i restru ar Zoopla.

Roedd y sefyllfa'n waeth eto i deuluoedd a oedd yn dymuno rhentu tŷ 3 ystafell wely, gyda dim ond 0.3% o'r eiddo wedi'i restru yn fforddiadwy i deuluoedd sy'n dibynnu ar fudd-dal tai. Yn bryderus, ar draws 15 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, nid oedd unrhyw dai 3 ystafell wely wedi'u rhestru a oedd o fewn cyfradd y Lwfans Tai Lleol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

---

[5] Y ffigur hwn yw nifer cyfun y rhentwyr preifat sy'n defnyddio Elfen Tai Credyd Cynhwysol (73,720) a rhentwyr preifat sy'n dal i gael Budd-dal Tai (11,693) yng Nghymru ym mis Chwefror 2026. Mae'r ffigur yn gywir ym mis Mehefin 2026. Yr Adran Gwaith a Phensiynau, StatXplore, gweler: Stat-Xplore - Home

[6] Gwefan StatsCymru, gweler: Unigolion digartref a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o lety | StatsCymru ; *Crisis, Y monitor digartrefedd: Cymru 2025*, gweler: Y monitor digartrefedd: Cymru 2025

Mae anawsterau hefyd i aelwydydd un person sy'n dymuno rhentu tŷ un ystafell wely. Roedd ein dadansoddiad wedi canfod mai 1.4% o eiddo 1 ystafell wely wedi'i restru yn y cyfnod hwn oedd o fewn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol.[7] Yn hanner yr ardaloedd awdurdod lleol, nid oedd unrhyw dai 1 ystafell wely wedi'u rhestru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf gyfan a fyddai'n fforddiadwy i bobl sy'n dibynnu ar fudd-dal tai.

> *"Fi bob amser yn gwybod bydd angen i fi ychwanegu rhywfaint. Ar £525 y mis, does dim byd am fod yn bosib i fi."*
> - Aelod o Skylight De Cymru

Mae cynnydd diweddar mewn rhenti yng Nghymru yn golygu bod effaith rhewi'r Lwfans Tai Lleol yn cael ei theimlo'n fwy siarp, ac yn gyflymach nag mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ystod y pedair blynedd pan oedd cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol wedi'u rhewi, a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2020, cynyddodd rhenti yng Nghymru 8% ar gyfartaledd. Roedd hyn yn her wirioneddol ac yn bwysau ariannol diangen ar aelwydydd. Ond yn hanner yr amser hwnnw, y ddwy flynedd ers uwchraddio'r Lwfans Tai Lleol ddiwethaf ym mis Ebrill 2024, mae rhenti yng Nghymru eisoes wedi cynyddu 14%. Mae'r effaith felly yn dwysáu a dim ond gwaethygu bydd pethau, a dim ond tyfu fydd y bwlch rhwng rhenti gwirioneddol a chymorth lles i rentwyr os bydd yr arfer o rewi yn parhau. [8]

## 2. Mae argaeledd tai rhent preifat sy'n fforddiadwy i bobl sy'n cael budd-dal tai yn eithriadol o brin ar draws Prydain Fawr, ond mae'r prinder yn fwyaf amlwg yng Nghymru.

Wrth gymharu ein data newydd ar draws Prydain, mae'n amlwg bod prinder tai rhent fforddiadwy yn broblem sylweddol ym mhob gwlad, ond mae'n fwyaf amlwg yng Nghymru. Yn yr Alban, roedd 5.5% o'r eiddo wedi'i restru yn hafal i neu'n is na chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol. Yn Lloegr dim ond 1.8% oedd y ffigur hwn. Y ffigur yng Nghymru yw 0.7%.

## 3. Mae prinder tai rhent fforddiadwy i bobl sy'n cael cymorth lles yn effeithio ar bob ardal yng Nghymru.

Mae'n bwysig nodi bod y datgysylltiad hwn rhwng y Lwfans Tai Lleol a rhent yn y byd go iawn i'w weld ym mhob cwr o Gymru. Er bod enghreifftiau o dai rhent sy'n cael eu hysbysebu islaw'r lefelau wedi'u gosod gan y Lwfans Tai Lleol, mae'r rhain yn brin iawn.


---

[7] Gwnaeth y tîm yn Zoopla bob ymdrech i hidlo eiddo wedi'i restru a oedd ar gyfer ystafell mewn tŷ a rennir, lle byddai cyfradd is y Lwfans Tai Lleol yn berthnasol, ond oherwydd y ffordd mae tai'n cael eu rhestru, mae'n bosib bod rhai o'r opsiynau mwy fforddiadwy yn ein data tai 1 ystafell wely yn rhai ar gyfer ystafell mewn tŷ amlfeddiannaeth.

[8] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Private Index of Private Rents, UK*. Gweler: [Price Index of Private Rents, UK: monthly price statistics - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol]

Yn y bôn, nid oes yr un ardal yng Nghymru lle y mae nifer y tai rhent preifat fforddiadwy sydd ar gael yn uwch na 2.9%.

Mae hyn yn golygu bod aelwydydd sy'n dibynnu ar fudd-dal tai yn brin iawn o opsiynau yn y sector rhentu preifat, a bod cystadleuaeth sylweddol am yr ychydig dai rhent fforddiadwy sydd ar gael.




Ffig: Map yn dangos argaeledd tai wedi'u rhestru i'w rhentu o fewn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn ôl Awdurdod Lleol, Crisis Cymru.

## 4. Mae'r diffyg rhwng y Lwfans Tai Lleol a rhenti'r byd go iawn yn golygu bod rhai o'r aelwydydd tlotaf yn gorfod dod o hyd i filoedd o bunnoedd bob blwyddyn mewn costau ychwanegol er mwyn osgoi ôl-ddyledion rhent.

Mae ein dadansoddiad o restrau Zoopla dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn dangos, hyd yn oed os ydynt yn edrych ar yr eiddo mwy fforddiadwy, bod aelwydydd sy'n dibynnu ar ryw fath o fudd-dal tai i dalu eu costau rhentu preifat yn wynebu diffyg blynyddol o £2,000-£4,000.[9] Fe wnaethom edrych ar 30ain canradd rhent misol yr eiddo

[9] Er tryloywder, byddem yn nodi bod y diffyg rhwng y 30% isaf o eiddo rhent wedi'u rhestru a chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol perthnasol yn uwch yn Lloegr nag yng Nghymru. Mae'r 20 Ardal Marchnad Rentu Eang sydd â'r diffyg mwyaf i gyd yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr.

ar gyfer pob Ardal Marchnad Rentu Eang yng Nghymru i gymharu pa mor agos yw cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol i'r tai mwyaf fforddiadwy sydd wedi'u rhestru i'w rhentu.

Mae mynd i'r afael â'r diffygion hyn yn ystod cyfnod o bwysau ariannol, costau bwyd uwch a biliau ynni cynyddol yn golygu bod aelwydydd yn gorfod gwneud penderfyniadau cyllidebol amhosib i gadw to uwch eu pen. Mae pobl yn symud arian oddi wrth gostau hanfodol eraill er mwyn cadw eu cartref.

Mae hwn yn fater rydyn ni'n ei weld yn rheolaidd yn Skylight De Cymru Crisis. Mae ein haelodau (pobl rydyn ni'n eu cefnogi sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n profi digartrefedd) yn dweud bod y diffyg hwn yn eu gorfodi i gylch na ellir ei reoli o leihau costau mewn mannau eraill drwy osgoi troi'r gwres ymlaen, mynd heb brydau bwyd neu orfod mynd i fanciau bwyd. Mae rhai hyd yn oed wedi dibynnu ar fenthyciadau i dalu rhent yn y tymor byr, ond yna'n gweld bod hyn yn cynyddu pwysau ariannol ymhellach fyth yn y misoedd dilynol. Mae'r effaith yn sylweddol. Mae'r trap anfforddiadwyedd sy'n cael ei greu gan y datgysylltiad rhwng y Lwfans Tai Lleol a rhenti'r byd go iawn yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, wrth iddynt frwydro i gadw cartref sy'n sylfaenol anghynaliadwy.

*"Pan oeddwn i'n rhentu o'r blaen, ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd e'n £675 y mis a dim ond y rhent oedd hynny. Roeddwn i'n cael tua £400 at fy rhent ond wedyn roedd rhaid i fi dalu'r swm ychwanegol hwnnw o fy mudd-dal arferol, ac roedd hwnnw ychydig dros £300 y mis. Felly, roeddwn i mewn banciau bwyd yn aml, roeddwn i'n cael benthyciadau i dalu fy miliau ac yna'n gorfod talu'r benthyciad yn ôl. Roeddwn i'n cael trafferth cael dau ben linyn ynghyd bob un dydd, ac roedd e'n effeithio ar fy iechyd meddwl."*

\- Aelod o Skylight De Cymru

## 5. Mae prinder tai fforddiadwy yn gallu rhoi pwysau ar bobl i fyw mewn cartrefi anaddas neu anghynaliadwy.

Yn Skylight De Cymru Crisis yn Abertawe, sy'n rhoi cymorth uniongyrchol, rheng flaen i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n profi digartrefedd, mae ein haelodau'n dweud yn aml bod yr ychydig iawn o eiddo sy'n fforddiadwy ar fudd-dal tai yn is o lawer na'r safon fyddai rhywun yn ei ddisgwyl mewn cartref.[10]

Mae Jon* yng nghanol ei 40au ac mae'n drydanwr hyfforddedig. Ar ôl profi digartrefedd a byw mewn llety dros dro yn ne Cymru, roedd Jon yn awyddus i edrych ar opsiynau a

[10] Mae ein tîm Cyswllt â Landlordiaid yn gweithio'n agos gyda landlordiaid ac asiantiaid sydd â diddordeb mewn defnyddio eu portffolio i gefnogi ein gwaith i symud pobl allan o ddigartrefedd. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r partneriaid hyn am ddarparu tai o ansawdd da sy'n fforddiadwy i aelodau Crisis.

fyddai'n ei symud allan o ddigartrefedd cyn gynted â phosib. Er ei fod wedi mwynhau byw ar ei ben ei hun o'r blaen, nid yw hyn yn opsiwn fforddiadwy mwyach gan ei fod yn dibynnu ar Gredyd Cynhwysol i dalu ei rent misol. Mae Jon wedi penderfynu derbyn ystafell mewn tŷ a rennir gyda phedwar oedolyn arall. Mae'r ystafell hon yn costio'r hyn sy'n cyfateb i'r gyfradd Lwfans Tai Lleol wedi'i gosod gan Lywodraeth y DU ar gyfer eiddo un ystafell wely preifat.

> *"Mynd i dŷ a rennir oedd yr unig benderfyniad gallwn i ei wneud i beidio â bod ar fy ngholled a gallu byw yn ôl be allaf ei fforddio. Mae unrhyw un yn y sefyllfa yma, unrhyw un sy'n troi at Opsiynau Tai, mae'r dewisiadau sydd ar gael iddyn nhw am fod yn gyfyng iawn."*

Mae Lucy* yn byw mewn llety â chymorth ar hyn o bryd ac mae hi wedi bod yn chwilio am rywle i'w rentu'n breifat yn lleol. Roedd hi'n glir, er ei bod hi wedi bod yn chwilio'n barhaus am dŷ yn ystod y flwyddyn yr oedd hi'n ddigartref, nad yw hi wedi gweld unrhyw fflat 1 ystafell wely sydd o fewn cyfradd y Lwfans Tai Lleol ar gyfer lle mae hi'n byw. Mae hyd yn oed yr opsiynau mwyaf fforddiadwy, sy'n uwch na chyfraddau budd-dal tai, yn dai nad ydynt yn darparu'r diogelwch a'r sefydlogrwydd sydd eu hangen ar Lucy i adeiladu bywyd y tu hwnt i ddigartrefedd.

> *"Fe welais i fflat un ystafell ddoe ac roedd e'n £650. Roedd e'n fach iawn, roedd e'n edrych fel sied, roedd yr unig ffenest yn edrych allan ar wal felly doedd dim golau. Byddai gorfod byw yno yn effeithio ar fy iechyd meddwl, does dim dwywaith am hynny, a dwi wrthi'n adfer. A byddai budd-dal tai ddim yn ddigon i dalu'r rhent beth bynnag ac mae biliau ar ben hynny, yr holl straen hwnnw eto. Ond i gael fflat sy'n teimlo fel cartref go iawn, byddwn i'n talu £800-£900 rownd fan hyn. A byddai angen cael gafael ar y bond a rhent y mis cyntaf hefyd.*
>
> *Does dim byd fforddiadwy i'w rentu yma felly mae angen i mi aros am dŷ cyngor. Mae angen i fi fod yn sefydlog yn ariannol oherwydd mae fy iechyd meddwl yn dioddef pan na alla i fforddio talu am bethau, dwi'n poeni. A dydw i ddim eisiau hynny'n pwyso ar fy meddwl i."*

## Edrych y tu hwnt i eiddo wedi'i restru a rhenti sy'n cael eu hysbysebu

Mae ein dadansoddiad yn yr adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar dai sydd wedi'u rhestru i'w rhentu yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Er y gall rhenti sy'n cael eu hysbysebu sgiwio'n uwch na'r rhenti presennol mewn unrhyw ardal benodol, yng nghyd-destun y rôl y gall rhentu preifat ei chwarae o ran lliniaru digartrefedd, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar eiddo rhent sydd newydd ei restru. Dyma'r tai sydd ar gael ar y farchnad pan fydd pobl sy'n ddigartref ar y pryd yn chwilio am gartref sefydlog – felly mae angen i ni ddeall yr opsiynau y mae'r farchnad yn eu darparu.

Er bod y data newydd yn yr adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar eiddo rhent sydd ar gael ar y farchnad o'r newydd, mae Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU yn

casglu data sy'n ein helpu i ddeall sut mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn effeithio ar aelwydydd sydd eisoes yn eu tŷ rhent. Ar hyn o bryd, mae 1 o bob 50 aelwyd yng Nghymru yn rhentu'n breifat ac yn hawlio budd-dal tai drwy Gredyd Cynhwysol.[11]

Gall y data hwn roi darlun byw i ni bron o lefel y sicrwydd y mae elfen tai Credyd Cynhwysol – gyda'i therfyn uchaf wedi'i osod gan y Lwfans Tai Lleol – yn ei roi i rentwyr preifat. Mae dangosydd Lwfans Tai Lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhannu data misol sy'n cymharu'r rhenti y mae hawlwyr yn eu talu yn erbyn y gyfradd Lwfans Tai Lleol berthnasol. Mae'r diweddariad diwethaf i'r data hwn yn nodi **nad** yw elfen tai Credyd Cynhwysol yn talu'r gost rhentu lawn ar gyfer dau draean yr hawlwyr yng Nghymru.[12]

Pan fydd Llywodraeth y DU yn rhewi'r Lwfans Tai Lleol, mae'n amlwg ei bod yn cael ei datgysylltu oddi wrth renti yn y byd go iawn, nid rhenti sy'n cael eu hysbysebu o'r newydd yn unig. Mae hyn yn rhoi pwysau ar sicrwydd tai rhentwyr presennol a gallai wthio mwy o bobl i ddigartrefedd.

## Effeithiau eraill rhewi cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ar ddigartrefedd yng Nghymru

Mae llawer mwy i'w ddweud am rewi cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol a'r effaith ehangach ar ddigartrefedd yng Nghymru nag y gallwn ei drafod yn yr adroddiad byr hwn. Yn gryno, mae penderfyniadau ynghylch y Lwfans Tai Lleol yn cyfrannu at y canlynol:

- Cost uchel llety dros dro. Mae cyfraddau annigonol y Lwfans Tai Lleol yn cael effaith fel ffactor sy'n cyfrannu at wariant Awdurdodau Lleol – gan nad yw pobl yn gallu dod o hyd i dai rhent fforddiadwy i symud iddynt, mae awdurdodau lleol ledled y wlad yn wynebu biliau sylweddol am gyfnodau hir mewn llety dros dro. Mae Archwilio Cymru wedi amcangyfrif mai £172 miliwn y flwyddyn yw cost llety dros dro yng Nghymru. [13]
- Cyfyngu ar effaith Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu arian i awdurdodau lleol iddynt ei roi, yn bennaf fel grantiau, i aelwydydd sydd eisoes yn cael rhyw fath o fudd-dal tai ond sydd angen cymorth ariannol ychwanegol i atal neu liniaru digartrefedd. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod o leiaf 25% o wariant Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yng Nghymru yn deillio'n uniongyrchol o anawsterau ariannol sy'n cael eu creu gan gyfraddau'r Lwfans Tai Lleol.[14] Dim ond 20% o gyfanswm gwariant Taliadau

---

[11] Nid yw'r set ddata hon yn cynnwys y 12,000 o aelwydydd ychwanegol sy'n dal i hawlio'r hen Fudd-dal Tai. Yr Adran Gwaith a Phensiynau, StatXplore, gweler: Stat-Xplore - Home

[12] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, *Local Housing Allowance Indicator,* StatXplore, gweler: Stat-Xplore - Home

[13] Archwilio Cymru, *Llety dros dro, argyfwng hirdymor?* Gweler: Llety dros dro, argyfwng hirdymor?

[14] Sylwer: gallai'r ffigur hwn fod mor uchel â 40% o ystyried y gyfran o'r gronfa sy'n cael ei gwario oherwydd aelwydydd sy'n wynebu anawsterau ariannol o ganlyniad i gyfuniad o ddiwygiadau lles. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2025/2026. Llywodraeth y DU, Gweler: Use of Discretionary Housing Payments: April to September 2025 - GOV.UK

Disgresiwn at Gostau Tai yng Nghymru sydd ddim yn gysylltiedig â phwysau sy'n cael eu creu gan waith diwygio lles dan arweiniad San Steffan (y cap budd-daliadau, y "dreth ystafell wely" a'r Lwfans Tai Lleol). Felly, mae rhewi cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i fanteisio i'r eithaf ar y mecanwaith cymorth hwn.

- **Cyfyngu ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy drwy Gynllun Lesio Cymru.** Mae'r cynllun hwn yn galluogi awdurdodau lleol i sicrhau bod lesoedd tymor hir ar gyfer tai rhentu preifat yn cael eu cynnig fel tai fforddiadwy, yn enwedig i aelwydydd sy'n ddigartref. Mae'r rhent y bydd y landlord yn ei gael yn cyd-fynd â'r gyfradd Lwfans Tai Lleol leol. Gyda chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn is o lawer na chost rhenti'r byd go iawn, mae pryder bod y cynllun yn llai dymunol a bod hyn yn cyfyngu'n rhannol ar ddefnydd landlordiaid o'r cynllun.
- **Dirywiad yng ngallu tenantiaid i gynnal a gorfodi eu hawl i gartref diogel ac iach.** Mae diffyg tai fforddiadwy yng Nghymru, yn enwedig yn y sector rhentu preifat, yn creu hinsawdd lle mae'r gystadleuaeth am dai fforddiadwy yn ffyrnig. Gall hyn arwain at ddiwylliant lle mae tenantiaid yn teimlo nad ydynt yn gallu herio amodau gwael yn eu cartref oherwydd eu bod yn ofni cynnydd mewn rhent.

## Casgliad

Mae'n amlwg nad yw Budd-dal Tai ac elfen tai Credyd Cynhwysol yn bodloni'r angen, gan nad yw cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol sy'n eu capio yn cyd-fynd â rhenti'r byd go iawn. Mae'r canlyniadau'n arwyddocaol ledled Prydain Fawr, ac yng Nghymru maent yn eithafol – yn enwedig mewn perthynas â digartrefedd.

Ar adeg pan fo'r argyfwng costau byw yn gwthio mwy o bobl i ymyl dibyn digartrefedd, pan fo mwy na 90,000 o aelwydydd yng Nghymru yn aros am dŷ cymdeithasol, a dros 10,500 o bobl yn gorfod byw mewn llety dros dro bob mis, mae llawer o bobl yn chwilio'n daer am eiddo fforddiadwy ar y farchnad rhentu preifat.[15]

Ond mae llai nag 1% o dai rhent ar y farchnad yn fforddiadwy i'r rhai sy'n dibynnu ar fudd-dal tai, felly yn aml nid yw rhentu preifat yn opsiwn ymarferol.

Mae ymdrechion pwysig ym Mae Caerdydd i wneud newidiadau polisi sylweddol a gweithio tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd, yn enwedig drwy Ddeddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) sydd wedi cael ei phasio'n ddiweddar, a drwy

---

[15] Shelter Cymru, *Aros am Gartref*, gweler: Aros am Gartref: Diweddariad ar restrau aros tai cymdeithasol yng Nghymru - Shelter Cymru; Llywodraeth Cymru, StatsCymru, gweler: Unigolion digartref a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o lety | StatsCymru

ymrwymiadau i gynyddu nifer y tai cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd effeithiau'r camau pwysig a hanfodol hyn yn cymryd blynyddoedd i'w gwireddu'n llawn.

Fel y mae Monitor Digartrefedd Crisis a Heriot-Watt Prifysgol Cymru yn ei nodi, mae diwygio'r dull o ymdrin â'r Lwfans Tai Lleol yn ffordd bwysig o'n symud at roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Bydd gwneud y penderfyniad i roi terfyn ar rewi cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol a nodi ymrwymiad i gynyddu blynyddol yn sicr yn helpu i atal a lleihau digartrefedd yng Nghymru.

Os bydd San Steffan yn dewis parhau i rewi'r Lwfans Tai Lleol, bydd rhentu preifat yn parhau i fod yn opsiwn anfforddiadwy ac anghynaliadwy i aelwydydd sy'n dibynnu ar fudd-dal tai.

Yng Nghymru, mae'r sector tai – ac yn wir Llywodraeth Cymru ei hun – wedi galw'n aml ar Lywodraeth y DU i adfer y Lwfans Tai Lleol i dalu gwir gost rhentu.[16] Ar lefel y DU, mae Crisis yn un o nifer o sefydliadau sydd wedi galw dro ar ôl tro ar Lywodraeth y DU i ymrwymo i gynnydd blynyddol yng nghyfraddau'r Lwfans Tai Lleol er mwyn cyfateb i'r 30% rhataf o renti preifat o leiaf. Ar draws y sector yng Nghymru, mae galw hefyd am godi cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol i gyfateb i'r 50% isaf o renti preifat.

Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn – ac yn ein hadroddiad sy'n edrych ar yr effaith ledled Prydain Fawr, *No Home To Go To: How Frozen Local Housing Allowance (LHA) Rates are Causing Homelessness* – yn dangos bod angen ar frys i San Steffan wrando ar y galwadau i adfer cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol, ac ymateb i'r galwadau hynny. Er mwyn i fudd-dal tai gyflawni ei bwrpas gwreiddiol o wneud rhentu preifat yn fforddiadwy i'r aelwydydd tlotaf ledled y Deyrnas Unedig, rhaid iddo dalu gwir gost rhentu. Bydd methu gwneud hynny'n ei gwneud yn llawer anoddach i ni greu Deyrnas Unedig, ac yn wir Cymru, lle mae gan bawb le sefydlog i'w alw'n gartref.

---

[16] Ysgrifennodd Cartrefi i Gymru Gyfan, y gynghrair o sefydliadau tai a digartrefedd trydydd sector yng Nghymru, at Arweinwyr Pleidiau'r DU, gweler: Cartrefi i Gymru Gyfan - Shelter Cymru; Mae Gweinidogion blaenorol a phresennol y Senedd sy'n gyfrifol am dai wedi cofnodi eu cefnogaeth yn y Siambr, gweler: Cwestiwn Ysgrifenedig - WQ95808 - Senedd Cymru

# Atodiadau

## Atodiad A: Argaeledd tai yng Nghymru wedi'u rhestru i'w rhentu o fewn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol, yn ôl Ardal Marchnad Rentu Eang a nifer yr ystafelloedd gwely

| Ardal Marchnad Rentu Eang | Argaeledd tai wedi'u rhestru i'w rhentu o fewn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Tai 1 ystafell wely | Tai 2 ystafell wely | Tai 3 ystafell wely | CYFANSWM |
| Blaenau Gwent | 0.0% | 0.6% | 0.0% | 0.2% |
| Brycheiniog a Maesyfed | 1.1% | 1.7% | 1.1% | 1.3% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0.0% | 0.4% | 0.0% | 0.2% |
| Caerffili | 0.0% | 0.0% | 0.5% | 0.2% |
| Caerdydd | 1.2% | 0.6% | 0.4% | 0.8% |
| Sir Gaerfyrddin | 2.2% | 0.0% | 0.0% | 0.4% |
| Ceredigion | 0.5% | 0.0% | 0.0% | 0.2% |
| Sir y Fflint | 3.2% | 0.0% | 0.0% | 0.7% |
| Merthyr Cynon | 0.0% | 0.4% | 0.0% | 0.2% |
| Sir Fynwy | 0.0% | 1.5% | 0.0% | 0.6% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1.7% | 0.4% | 0.0% | 0.5% |
| Casnewydd | 0.0% | 0.2% | 0.3% | 0.2% |
| Gogledd Clwyd | 0.5% | 0.7% | 0.0% | 0.5% |
| Gogledd Powys | 0.0% | 0.0% | 4.2% | 1.2% |
| Gogledd-orllewin Cymru | 0.0% | 5.6% | 0.8% | 2.7% |
| Sir Benfro | 0.0% | 0.9% | 0.0% | 0.4% |
| De Gwynedd | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Abertawe | 2.3% | 0.2% | 0.3% | 0.8% |
| Rhondda Taf | 4,1% | 0.3% | 0.0% | 0.7% |
| Torfaen | 8,7% | 1.6% | 1.9% | 2.9% |
| Bro Morgannwg | 1.6% | 0.4% | 0.0% | 0.6% |
| Gorllewin Swydd Gaer[17] | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Wrecsam | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

[17] Sylwch fod yr Ardaloedd Marchnad Rentu Eang yn dilyn ffiniau sy'n wahanol i awdurdodau lleol, etholaethau etholiadol a ffiniau gwledydd. Felly mae Gorllewin Swydd Gaer wedi'i gynnwys yma gan ei fod yn cwmpasu ardal fach o Gymru i'r gogledd o Wrecsam.

## Atodiad B: Y diffyg rhwng y 30ain canradd o renti wedi'u hysbysebu yng Nghymru a chyfraddau presennol y Lwfans Tai Lleol, yn ôl Ardal Marchnad Rentu Eang a nifer yr ystafelloedd gwely

| | Y diffyg misol rhwng y 30% mwyaf fforddiadwy o eiddo rhent wedi'i restru a chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol | | |
|---|---|---|---|
| **Ardal Marchnad Rentu Eang** | **Tai 1 ystafell wely** | **Tai 2 ystafell wely** | **Tai 3 ystafell wely** |
| Blaenau Gwent | £205.11 | £220 | £260 |
| Brycheiniog a Maesyfed | £135.00 | £210 | £250 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £236.50 | £225 | £275 |
| Caerffili | £277.50 | £255 | £300 |
| Caerdydd | £219.50 | £325 | £425 |
| Sir Gaerfyrddin | £150.00 | £206 | £315 |
| Ceredigion | £228.00 | £278 | £300 |
| Sir y Fflint | £125.00 | £190 | £255 |
| Merthyr Cynon | £140.48 | £175 | £225 |
| Sir Fynwy | £261.84 | £250 | £355 |
| Castell-nedd Port Talbot | £188.33 | £261 | £345 |
| Casnewydd | £285.00 | £279 | £450 |
| Gogledd Clwyd | £200.00 | £200 | £282 |
| Gogledd Powys | £170.00 | £175 | £172 |
| Gogledd-orllewin Cymru | £208.93 | £150 | £225 |
| Sir Benfro | £190.00 | £235 | £300 |
| De Gwynedd | £195.00 | £240 | £276 |
| Abertawe | £175.00 | £300 | £350 |
| Rhondda Taf | £213.00 | £275 | £280 |
| Torfaen | £100.00 | £211 | £300 |
| Bro Morgannwg | £224.23 | £284 | £425 |
| Gorllewin Swydd Gaer[18] | £175.00 | £275 | £310 |
| Wrecsam | £150.00 | £275 | £300 |

[18] Sylwch fod yr Ardaloedd Marchnad Rentu Eang yn dilyn ffiniau sy'n wahanol i awdurdodau lleol, etholaethau etholiadol a ffiniau gwledydd. Felly mae Gorllewin Swydd Gaer wedi'i gynnwys yma gan ei fod yn cwmpasu ardal fach o Gymru i'r gogledd o Wrecsam.